Atodiad 2

| CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb 2021/22 | Sefyllfa 2021/22 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 15,953 | 15,277 | (676) | 0 | (676) | (890) |
| Gofal Cartref | 7,451 | 7,817 | 366 | 0 | 366 | 633 |
| Eraill | (121) | 618 | 739 | 0 | 739 | 813 |
| | 23,283 | 23,712 | 429 | 0 | 429 | 556 |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | 2,531 | 2,406 | (125) | 0 | (125) | (45) |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 21,320 | 21,604 | 284 | 0 | 284 | 511 |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | 3,642 | 4,085 | 443 | 0 | 443 | 215 |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | 3,307 | 3,199 | (108) | 0 | (108) | (79) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **54,083** | **55,006** | **923** | **0** | **923** | **1,158** |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | (233) | (632) | (399) | 0 | (399) | (299) |
| Gofal Dydd | (33) | (168) | (135) | 0 | (135) | (138) |
| Gofal Cymunedol | 294 | 1,244 | 950 | 0 | 950 | 542 |
| Eraill | (3) | (13) | (10) | 0 | (10) | (13) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **25** | **431** | **406** | **0** | **406** | **92** |

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb 2021/22 | Sefyllfa 2021/22 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,467 | 3,837 | 370 | 0 | 370 | 149 |
| Gwariant Ychwanegol Gweithlu Gofal Sgil Covid 19 | 200 | 364 | 164 | 0 | 164 | (75) |
| Grant Pwysau Gofal Cymdeithasol | 0 | (1,932) | (1,932) | 0 | (1,932) | 0 |
| Defnydd Cronfa Tanwariant yr Adran | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (329) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **3,667** | **2,269** | **(1,398)** | **0** | **(1,398)** | **(255)** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **57,775** | **57,706** | **(69)** | **0** | **(69)** | **995** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

Bu i'r adran dderbyn grantiau sylweddol yn hwyr yn y flwyddyn sydd wedi trawsnewid sefyllfa ariannol yr adran, sef £1.9 miliwn Pwysau Gofal Cymdeithasol ar Awdurdodau Lleol a £465k Cronfa Adfer Gofal Cymdeithasol.

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - tanwariant ar breswyl a nyrsio ond gorwariant ar Ofal Cartref. Yn 'Eraill' gorwariant ar Lety Cefnogol gyda chostau cynllun Hafod y Gest ac Awel y Coleg yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gorwariant perthnasol, bu cynnydd hefyd yn y nifer pecynnau taliadau uniongyrchol a thrafferthion gwireddu arbedion.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - lleihad yn y galw am ofal cartref ond phwysau cynyddol ar lety cefnogol a phreswyl a nyrsio.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - achosion newydd costus yn llety cefnogol a phwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol sydd yn cael ei leihau gan arian un-tro eleni.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - pwysau cynyddol ar breswyl a nyrsio gyda achos newydd costus wedi arwain at gynnydd yn y gorwariant.

**Gwasanaethau Darparu** -  staffio uwchlaw lefel y gyllideb a cholled incwm yn faterion yn Gofal Cymunedol, tra fod swyddi gwag a throsiant staff wedi arwain at danwariant cynyddol mewn nifer o gartrefi pobl hŷn ac oblygiadau Covid wedi amharu ar ddarpariaeth Gofal Dydd ac felly yn tanwario.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - pwysau ychwanegol ar nifer o gyllidebau ynghyd â chynlluniau arbedion yn parhau heb eu gwireddu.

**Cyllideb 2021/22** - eleni, bu i'r adran dderbyn gwerth dros £1.6 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar y gyllideb 2021/22 gan gynnwys i'r maes Anabledd Dysgu, Pobl Hŷn ac Anabledd Corff.

**Gwariant / Grant Covid / Grantiau**- mae effaith Covid wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant unwaith eto eleni gyda dros £3.7 miliwn eisoes wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru at y pwysau ychwanegol hyd at ddiwedd Tachwedd.

**Arbedion** - mae methiant i gyflawni arbedion yn ffactor amlwg yng ngorwariant yr adran gyda gwerth £855k yn parhau heb eu gwireddu.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb 2021/22 | Sefyllfa 2021/22 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 599 | 546 | (53) | 0 | (53) | (18) |
| Gweithredol | 2,107 | 2,164 | 57 | 0 | 57 | 175 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 4,701 | 5,043 | 342 | 0 | 342 | (133) |
| Maethu Drwy Asiant | 1,633 | 1,504 | (129) | 0 | (129) | (116) |
| Maethu Mewnol | 2,405 | 2,373 | (32) | 0 | (32) | 29 |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,678 | 1,664 | (14) | 0 | (14) | (37) |
| | 10,417 | 10,584 | 167 | 0 | 167 | (257) |
| Ôl-16 | 1,243 | 1,267 | 24 | 0 | 24 | 65 |
| Arbenigol/Derwen | 1,848 | 2,010 | 162 | 0 | 162 | 263 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 254 | 203 | (51) | 0 | (51) | (37) |
| Blynyddoedd Cynnar | 153 | 79 | (74) | 0 | (74) | (54) |
| Ieuenctid | 782 | 535 | (247) | 0 | (247) | (182) |
| Eraill | 1,816 | 1,734 | (82) | 0 | (82) | (68) |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **19,219** | **19,122** | **(97)** | **0** | **(97)** | **(113)** |

## Plant a Theuluoedd

Yn dilyn dyrannu dros £1.8m o arian ychwanegol i'r adran ar gyfer 2021/22 ynghyd â dileu gwerth £1.1 miliwn o arbedion ac hefyd derbyniad grantiau wedi arwain at sefyllfa o danwariant.

**Gweithredol** - gorwariant ar gyflogau ac ar gynlluniau cefnogol, sydd yn cael eu lleihau gan dderbyniadau grant.

**Lleoliadau** - dyraniad bid a dileu arbedion wedi cael effaith sylweddol ar y maes yma sydd wedi bod yn gorwario'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Gwelwyd 10 achos lleoliad all-sirol newydd yn ystod y flwyddyn gyda 7 lleoliad wedi dod i ben, gyda'r nifer cyfartalog fyny i 23.3 o'i gymharu â 22 ar gyfer 2020/21. Y niferoedd cyfartalog hefyd i lawr ar gyfer maethu drwy asiant sydd yn 30.9 eleni i gymharu gyda 33.4 yn 2020/21. Yn Maethu Mewnol, grantiau yn cynorthwyo gyda'r gorwariant ar gynllun Tâl am Sgiliau a'r Cynllun Aros Ymlaen.

**Ôl-16** - y maes yma wedi bod yn destun bid gwerth £100k eleni sydd wedi cynorthwyo i leihau'r pwysau ar y gyllideb sydd yn deillio o effaith flwyddyn lawn achosion.

**Arbenigol/Derwen** – effaith cynnydd yn y galw am gynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol dros y blynyddoedd diwethaf yn gyfrifol am y gorwariant, ynghyd â newid yn y pwyslais o ran sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, gyda phwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol yn amlwg bellach. Lleihad yn y gorwariant a adroddir yn dilyn derbyniad grant.

**Cyfiawnder Ieuenctid** - trosiant staff a derbyniad grant yn golygu bod tanwariant ar y pennawd yma.

**Blynyddoedd Cynnar** – defnydd cynyddol o grantiau yn cyllido gwariant craidd a derbyniad grantiau yn y maes gofal plant yw'r rhesymau am y tanwariant.

**Ieuenctid** – derbyniad grant pellach yn erbyn gwariant craidd ynghyd â thanwariant yn dilyn ail fodelu'r gwasanaeth. Gweithgaredd y gwasanaeth wedi ei amharu gan effaith Covid ac felly llai o wariant o ganlyniad.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Addysg** | Cyllideb 2021/22 | Sefyllfa 2021/22 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 82,436 | 82,436 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (1,217) | (1,562) | (345) | 0 | (345) | (309) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | | | | |
| Cludiant | 5,518 | 5,624 | 106 | 0 | 106 | 101 |
| Gwasanaeth Atodol | 448 | 871 | 423 | 0 | 423 | 378 |
| Eraill | (165) | (252) | (87) | 0 | (87) | (35) |
| | 5,801 | 6,243 | 442 | 0 | 442 | 444 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,470 | 2,341 | (129) | 0 | (129) | (152) |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 4,308 | 4,280 | (28) | 0 | (28) | (37) |
| **Cyfanswm Addysg** | **93,798** | **93,738** | **(60)** | **0** | **(60)** | **(54)** |

## Addysg

**Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion -** cyfuniad o dderbyniadau grantiau pellach, trosiant staff, cwtogi ar wariant a lleihad yn y galw ar rai cyllidebau yn gyfrifol am y tanwariant cynyddol erbyn diwedd y flwyddyn.

**Cludiant -** Er fod £291k o arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r maes yma ar gyfer 2021/22, gorwariant o £122k ar Gludiant Tacsis eleni. Gwelwyd pwysau ychwanegol ar y gyllideb yn dilyn i gyrsiau addysgol y Grŵp Llandrillo Menai gael eu symud i Llangefni ynghyd â chynnydd am y galw am dacsis ar gyfer disgyblion ysgolion arbennig Hafod Lon a Phendalar. Derbyniad grant a thanwariant un-tro ar fysus ysgolion eleni yn cynorthwyo i leihau'r gorwariant a adroddir.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, gyda'r angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol -** gorwariant pellach ar gostau staff a chynnydd yn y colledion incwm prydau ysgol ac am yr elfen gofal o'r clybiau brecwast. Gofynion glanhau ychwanegol ysgolion cysylltiedig â Covid wedi bod yn amlwg eleni gyda chyfran o'r gwariant ychwanegol perthnasol wedi cael eu hawlio gan Lywodraeth Cymru.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill -** llai o alw ar nifer o gyllidebau amrywiol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth -** tanwariant ar nifer o benawdau amrywiol o'r gyllideb.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad -** darlun cymysg sydd yn gyfuniad o swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol, tra fod amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am orwariant o £208k.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb 2021/22 | Sefyllfa 2021/22 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 351 | 351 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau | 347 | 413 | 66 | 0 | 66 | 58 |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | (173) | (362) | (189) | 0 | (189) | (216) |
| Cytundebau Hamdden | 976 | 971 | (5) | 0 | (5) | 21 |
| Rhaglenni Chwaraeon | 28 | 21 | (7) | 0 | (7) | 0 |
| Rhaglenni Datblygu Economiadd | (90) | 21 | 111 | 0 | 111 | 54 |
| Marchnata a Digwyddiadau | 318 | 329 | 11 | 0 | 11 | 14 |
| Llyfrgelloedd Gwynedd | 1,422 | 1,345 | (77) | 0 | (77) | (56) |
| Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd | 776 | 794 | 18 | 0 | 18 | 39 |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **3,955** | **3,883** | **(72)** | **0** | **(72)** | **(86)** |

## Economi a Chymuned

**Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau -** derbyniad grantiau a gwariant ychwanegol un-tro ar raglenni adfywio eleni.

**Morwrol a Pharciau Gwledig -** cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant gan gynnwys trosiant staff a rhagori ar incwm yn y Parciau Gwledig ac hefyd yn Hafan Pwllheli, yn sgil y nifer cynyddol o dwristiaid i'r ardal ac felly yn y galw am angorfeydd yn dilyn llacio'r cyfyngiadau Covid. Gwelwyd hefyd fod incwm y traethau yn rhagori'r targedau incwm yn dilyn blwyddyn brysur o ran twristiaid i'r ardal.

**Cytundebau Hamdden -** trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Cwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor.

Gan fod Covid wedi amharu ar allu'r canolfannau hamdden i agor ac ar ddarpariaeth gwasanaeth, felly wedi cael effaith ar y gallu i gynhyrchu incwm, mae cais am arian i ddigolledu Byw'n Iach am gostau ychwanegol a cholled incwm Covid gan Lywodraeth Cymru yn £1.4 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol (£2.7 miliwn yn 2020/21).

**Rhaglenni Datblygu Economaidd -** derbyniad grant ynghyd â gwariant ychwanegol ar amrywiol gynlluniau eleni.

**Llyfrgelloedd Gwynedd -** swyddi gwag a throsiant staff ynghyd â thanwariant ar deithio a chostau swyddfa.

**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd -** sgil effaith Covid wedi amharu'n negyddol ar y lefelau incwm ond wedi arwain at leihad mewn gwariant. Bu llithriad yn amserlen agor Neuadd Dwyfor yn dilyn y gwaith adnewyddu, sydd yn ei dro wedi arwain at ddiffyg incwm eleni. Problemau yn parhau yn Storiel gyda'r diffyg wedi cynyddu i £61k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

| CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | | Cyllideb 2021/22 | Sefyllfa 2021/22 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22 |
| **Maes:-** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | | 9,831 | 10,098 | 267 | 0 | 267 | (148) |
| Gwasanaethau Peirianneg | | 403 | 426 | 23 | 0 | 23 | 109 |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | Gwastraff | 10,515 | 10,877 | 362 | 0 | 362 | 696 |
| | Eraill | 3,612 | 3,706 | 94 | 0 | 94 | 205 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2021/22 | | | | | (746) | (746) | 0 |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **24,361** | **25,107** | **746** | **(746)** | **0** | **862** |

## Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

**Gwasanaethau Priffyrdd** - yr hinsawdd economaidd bresennol gyda chynnydd ym mhrisiau ynni, tanwydd a deunyddiau wedi cael effaith negyddol yn ariannol, ynghyd ag oediad i wireddu cynlluniau arbedion.

**Gwasanaethau Peirianneg** - methiant i wireddu cynlluniau arbedion gan gynnwys arbedion teledu cylch cyfyng a phont Abermaw ond trafodaethau'n parhau i geisio datrysiad. Lleihad yn y gorwariant oherwydd swyddi gwag.

**Gwastraff** - derbyniad grant hwyr gwerth £397k ym Mawrth yn lleihau'r gowariant a adroddir. Nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, ond yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Er fod yr adran wedi cymryd camau i newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu gwastraff, bu oediad mewn gweithredu. Mae'r trefniadau newydd mewn grym yn Nwyfor ac Arfon ac yn weithredol ym Meirionnydd ers dechrau'r flwyddyn ariannol, felly costau trosiannol cysylltiedig â chostau staffio a salwch yn amlwg eleni. Cynnydd hefyd yn y nifer o dunelledd o wastraff ailgylchu a domestig a gesglir. Ymhellach, gorwariant ar gostau fflyd a thrafferthion i wireddu arbedion.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gyda rhai o'r prif resymau yn cynnwys colledion incwm cynnal tiroedd, pwysau ychwanegol ar gyllidebau gwastraff masnachol, glanhau strydoedd ac arbedion yn parhau heb eu darganfod. Incwm uwch erbyn diwedd y flwyddyn gan y gwasanaethau profedigaeth yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Mae ardrawiad Covid wedi cael cryn effaith ar yr adran o ran gwariant ychwanegol yn bennaf ond hefyd colled incwm, gyda gwerth dros £1.7 miliwn wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru eleni (£2.4m yn 2020/21).

**Argymhellir** fod yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £746k i ddiddymu'r gorwariant yn llwyr, o ystyried yr amgylchiadau eithriadol yn ymwneud â'r argyfwng eleni, fel bod modd i'r adran symud ymlaen i wynebu her 2022/23.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Amgylchedd** | Cyllideb 2021/22 | Sefyllfa 2021/22 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 622 | 642 | 20 | 0 | 20 | (71) |
| Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 306 | 265 | (41) | 0 | (41) | 2 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 296 | (185) | (481) | 0 | (481) | (279) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (2,142) | (1,952) | 190 | 0 | 190 | 138 |
| Cludiant Integredig | 1,824 | 2,019 | 195 | 0 | 195 | 165 |
| | (22) | (118) | (96) | 0 | (96) | 24 |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 672 | 701 | 29 | 0 | 29 | 11 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,721 | 1,618 | (103) | 0 | (103) | (144) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2021/22 | | | | 91 | 91 | 0 |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **3,299** | **3,108** | **(191)** | **91** | **(100)** | **(178)** |

## Amgylchedd

**Rheolaeth** - gwariant ar amrywiol benawdau'r gyllideb wedi arwain at orwariant erbyn diwedd y flwyddyn.

**Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu** - y rhagolygon incwm wedi gwella yn ystod y flwyddyn yn dilyn i geisiadau sylweddol gael eu cyflwyno dros y misoedd diwethaf. Tanwariant ar amrywiol gyllidebau gan gynnwys rhybuddion statudol ac apeliadau.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth**
**Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)** - yn rhagori ymhellach ar yr incwm ffioedd gwaith stryd, ynghyd â swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Parcio a Gorfodaeth Parcio** - cynnydd yn y diffyg incwm parcio erbyn diwedd y flwyddyn sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gyllidebau amrywiol gan gynnwys costau cyflogi.

**Cludiant Integredig** - cynnydd yn y gorwariant ar gytundebau bysus cyhoeddus, gyda'r gwaith o gynnal adolygiad i edrych ar y ddarpariaeth wedi ail gychwyn bellach yn dilyn oediad o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

**Gwarchod y Cyhoedd** - swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb eleni gan gynnwys samplau bwyd a dŵr, teithio a hysbysebu.

Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol **argymhellir** cadw at y drefn arferol i ganiatau i'r Adran Amgylchedd gadw (£100k) o'i danwariant, gan symud (£91k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w neilltuo i'r gronfa ar gyfer trefniadau adfer yn sgil Covid ar gyfer cyllido'r heriau ariannol cysylltiedig fydd yn wynebu'r Cyngor.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb 2021/22 | Sefyllfa 2021/22 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | (425) | (439) | (14) | 0 | (14) | (32) |
| Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS) | (14) | (14) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uned Rheoli Risg Llifogydd | 429 | 337 | (92) | 0 | (92) | 0 |
| Gwasanaeth Adeiladu | (96) | (99) | (3) | 0 | (3) | 37 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2021/22 | | | | 9 | 9 | 0 |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **(106)** | **(215)** | **(109)** | **9** | **(100)** | **5** |

## Ymgynghoriaeth

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg** - nifer cynyddol o swyddi gwag sydd yn cael effaith negyddol ar lefelau incwm sydd yn cael eu hadennill ar gynlluniau gan sefydliadau allanol megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru.

**Uned Rheoli Risg Llifogydd** - gwelliant o'r rhagolygon o ganlyniad i danwariant ar weithiau, costau staff ac ar gostau trafnidiaeth a theithio.

**Gwasanaeth Adeiladu** - trosiant staff ac incwm yn uwch erbyn diwedd y flwyddyn na'r hyn a ragwelwyd.

Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol **argymhellir** cadw at y drefn arferol i ganiatau i'r Adran Ymgynghoriaeth gadw (£100k) o'i danwariant, gan symud (£9k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w neilltuo i'r gronfa ar gyfer trefniadau adfer yn sgil Covid ar gyfer cyllido'r heriau ariannol cysylltiedig fydd yn wynebu'r Cyngor.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adran Tai ac Eiddo** | Cyllideb 2021/22 | Sefyllfa 2021/22 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 203 | 154 | (49) | 0 | (49) | (56) |
| Gwasanaethau Tai | | | | | | |
| Digartrefedd | 1,100 | 1,128 | 28 | 0 | 28 | (33) |
| Tai Sector Breifat | 401 | 357 | (44) | 0 | (44) | (2) |
| Eraill | 406 | 357 | (49) | 0 | (49) | (35) |
| | 1,907 | 1,842 | (65) | 0 | (65) | (70) |
| Gwasanaethau Eiddo | | | | | | |
| Eiddo | 1,632 | 1,490 | (142) | 0 | (142) | (141) |
| Gofalu, Arlwyo a Glanhau | (13) | (37) | (24) | 0 | (24) | (39) |
| | 1,619 | 1,453 | (166) | 0 | (166) | (180) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2021/22 | | | | 180 | 180 | 0 |
| **Cyfanswm Tai ac Eiddo** | **3,729** | **3,449** | **(280)** | **180** | **(100)** | **(306)** |

## Tai ac Eiddo

**Rheolaeth** - tanwariant ar gostau cyflogi staff yn ystod y flwyddyn yn gyfrifol am y sefyllfa.

**Gwasanaethau Tai** - unwaith eto eleni gwelwyd bwysau sylweddol ar y gwasanaeth Llety Dros Dro yn Digartrefedd yn deillio o'r argyfwng Covid, o ran symud y digartref oddi ar y stryd. Yn ystod y flwyddyn bu i Lywodraeth Cymru ein digolledu am gyfran sylweddol o'r £2.9 miliwn o wariant ychwanegol perthnasol. Pwysau arall amlwg eleni yw costau i gwrdd â chynnal a chadw'r Cynllun Lesu Tai preifat, gyda gwaith dal fyny efo'r ochr cynnal a chadw yn dilyn oediad yn sgil Covid. Yn gydamserol, tanwariant ar gostau staff yn Digartrefedd ac yn y maes Gorfodaeth dan Tai Secotor Breifat ac hefyd yn Sipsiwn a Theithwyr dan 'Eraill'.

**Gwasanaethau Eiddo** - swyddi gwag a secondiadau sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant a ragwelir ar yr ochr Eiddo, gyda chyfuniad o lai o wariant ar wasanaethau a chyflenwadau a rhagor o incwm yn y maes Gofalu, Arlwyo a Glanhau.

**Argymhellir** cadw at y drefn arferol i ganiatau i'r Adran Adran Tai ac Eiddo gadw (£100k) o'i danwariant, gan symud (£180k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w neilltuo i'r gronfa ar gyfer trefniadau adfer yn sgil Covid ar gyfer cyllido'r heriau ariannol cysylltiedig fydd yn wynebu'r Cyngor.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Adrannau Canolog** | Cyllideb 2021/22 | Sefyllfa 2021/22 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 1,831 | 1,798 | (33) | 0 | (33) | (87) |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 6,420 | 6,324 | (96) | 0 | (96) | (56) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,176 | 7,113 | (63) | 0 | (63) | (83) |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **15,427** | **15,235** | **(192)** | **0** | **(192)** | **(226)** |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - lleihad yn y tanwariant yn dilyn i swydd wag y Cyfarwyddwr Corfforaethol gael ei glustnodi i gyllido cynlluniau penodol ynghyd â defnydd o gyfreithwyr asiantaeth yn lleihau'r tanwariant ar drosiant staff Cyfreithiol.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** - cynnydd yn y tanwariant yn dilyn derbyniad ffioedd incwm am weinyddu grantiau amrywiol yn sgil Covid gan gynnwys y cynllun hunan ynysu, cymorth tanwydd gaeaf a grantiau busnes. Tanwariant un-tro gan yr adran oherwydd swyddi gwag a derbyniad incwm mewn nifer o feysydd.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - trosiant staff a rhagori ar incwm gan nifer o wasanaethau, er hyn, sgil effaith Covid wedi cael goblygiadau negyddol ar incwm mewnol yr Argraffdy, gyda diffyg incwm o £56k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Tanwariant ar nifer o benawdau ar draws yr adran yn cyfrannu at y sefyllfa tanwariant cyffredinol.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - CYFRIFON TERFYNOL**

| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb 2021/22 | Sefyllfa 2021/22 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Amcan Gor/(Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth Cyngor | * | * | (1,493) | 1,493 | 0 | 0 |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | (291) | 291 | 0 | 0 |
| Costau Cyfalaf | * | * | (2,183) | 2,183 | 0 | 0 |
| Derbyniad Llog | * | * | (72) | 72 | 0 | 0 |
| Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd | * | * | (233) | 233 | 0 | 0 |
| Eraill | * | * | (204) | 204 | 0 | 0 |
| Ychwanegiad Setliad Llywodraeth Leol 2021/22 | * | * | (2,479) | 2,479 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(6,955)** | **6,955** | **0** | **0** |

## Corfforaethol

Derbyniad grantiau gwerth £3.3 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r tanwariant a adroddir.

**Treth Cyngor** - yn ystod y flwyddyn bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatau 469 eiddo i drosglwyddo o Dreth Cyngor i Drethi Annomestig (506 yn 2020/21, 397 yn 2019/20, 453 yn 2018/19). Er hyn, sefyllfa ffafriol o gynnyrch treth ychwanegol oherwydd rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2021/22 ynghyd â derbyniad grant o £0.9 miliwn yn hwyr ar ddiwedd y flwyddyn yn sgil yr argyfwng Covid. Derbyniwyd £6.5m o Bremiwm Treth Cyngor yn ystod 2021/22 sydd wedi ei neilltuo i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.

**Gostyngiadau Treth Cyngor** - lleihad yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol ynghyd â gosod amcangyfrifon darbodus.

**Costau Cyfalaf** - o ganlyniad i dderbyniad grantiau niferus i gyllido cyfalaf ynghyd â llithriadau ar gynlluniau yn y rhaglen cyfalaf, golyga hyn fod angen llithro arian refeniw a chyfnewid dulliau ariannu gan drosglwyddo gwerth (£2,183k) o arian refeniw i gronfa er mwyn ariannu'r rhaglen gyfalaf yn 2022/23.

**Derbyniad Llog** - derbyniad uwchlaw'r rhagolygon.

**Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd ac Eraill** - y pwysau ar nifer o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd eleni.

**Ychwanegiad Setliad Llywodraeth Leol 2021/22** - derbyniad grant ychwanegol yn annisgwyl ym Mawrth o £2.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhellir** yn dilyn yr ymarferiad cynaeafu cronfeydd gwerth £851k a fanylir yn **Atodiad 4** y dylid cynorthwyo'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol sydd yn gorwario £746k yn 2021/22, drwy gyllido eu gorwariant yn llwyr, gan drosglwyddo y £105k sydd yn weddill o'r cynaeafu cronfeydd i falansau cyffredinol y Cyngor.

- fod (£2,183k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf
- gyda gweddill y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol yn cael ei neilltuo fel a ganlyn:
- (£395k) yn mynd i falansau cyffredinol y Cyngor
- (£3,000k) i'r Gronfa Trawsffurfio i gyllido blaenoriaethau'r Cyngor a gwaith trawsffurfiol ei natur
- (£1,377k) i'r Gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid ar gyfer cyllido'r heriau ariannol cysylltiedig fydd yn wynebu'r Cyngor.